RHEOLWR SWYDDFA

£23,500

Mae cwmni cyfieithu Cymen yn chwilio am unigolyn trefnus a chydwybodol i ymuno â'n tîm prysur yn ein swyddfa yng Nghaernarfon.

Bydd yr amrywiol ddyletswyddau'n cynnwys trefnu a rhannu gwaith i'n cyfieithwyr, rheoli amserlenni gwaith a bod yn gyfrifol am lif gwaith y cwmni.

Yn ddelfrydol bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o weithio mewn swyddfa brysur ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros amrywiol dasgau. Byddwn yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i gyflawni'r tasgau.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu cyfathrebu ar lafar ac ar bapur mewn Cymraeg a Saesneg graenus.

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch i holi am ffurflen gais a rhagor o wybodaeth. Mae croeso cynnes i chi hefyd gysylltu i drafod y swydd ymhellach.

e-bost cymen@cymen.co.uk

ffôn 01286 674409

Dyddiad cau – 27 Tachwedd 2020.